

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 8fed Gorffennaf, 2019, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir
Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Carys H. Evans
Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

24. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

25. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

26. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Mehefin, 2019. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Ifor Owen ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones).

MATER YN CODI - Eitem 18(a) – O Ddrws i Ddrws

Cyflwynwyd atebiad Mrs. Meinir Jones o O Ddrws i Ddrws ar y diweddariad "ar yr hyn dwi wedi'i ddeall gan y Feddygfa ym Motwnnog" (amgaeaf gopi o'r llythyr yn ei gyfanrwydd – atodiad 'B').

Penderfynwyd cyn dod i benderfyniad ynglyn a chyfrannu fod poster yn cael ei roddi i fyny yn Y Feddygfa a Swyddfa'r Post Botwnnog, Siop Waterloo, Siop Penybont a Neuadd Goffa Sarn; Canolfan Bryncroes a Storfa Wynnstay ym Mhenygroeslon yn hysbysu'r cyhoedd o fwriad 'O Ddrws i Ddrws' a thrwy hynny canfod a oes galw am wasanaeth o'r fath yng Nghymuned Botwnnog. (Copi o'r poster yn amgaeedig – B1).

27. CEISIADAU CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw gais i law.

28. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) **Penderfynwyd** anfon at Beiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, gan ofyn iddo :

Gael adnewyddu'r garreg filltir sydd ger Groeslon Siop Lwyd, Bryncroes.
Barbio Lon Penllech i lawr am Tir Dafydd Bryncroes,
Twill dwfn ger Manchester House, Sarn angen sylw.

Penderfynwyd hefyd tynnu sylw'r Swyddog nad oedd safon y gwaith gystal ag arfer eleni.

- (b) **Penderfynwyd** gofyn i Mr. J.A. Pozzi, yr Ymgwymerwr torri Mynwent Llandegwning, dacluso'r tyfiant sydd ar y llwybr concriid yn y Fynwent.

29. **MATERION IECHYD**

Penderfynwyd gofyn i Reolwr Meddygfa Botwnnog beth yw'r rheswm fod y ffon yn torri i ffwrdd ambell dro ar ôl canu am beth amser.

30. **RHEOLIADAU AROLWG DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO (ETHOLIADAU SENEDDOL) 2006**

Cyflwynwyd llythyr Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithil Cyngor Gwynedd yn nodi eu bod yn gwneud arolwg o'r manau pleidleisio yng Ngwynedd. 'Roedd pedair gorsaf bleidleisio yng Nghymuned Botwnnog fel a ganlyn:

Festri Capel Rhydbach, Botwnnog
Festri Capel Hebron, Llangwinnadl
Canolfan Bryncroes
Neuadd Goffa Sarn

Penderfynwyd fod y pedwar lleoliad yn dderbyniol a hwylus ar gyfer trethdalwyr Cymuned Botwnnog.

31. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

32. **HAWLIAU MIS AWST**

Penderfynwyd gweithredu hawliau mis Awst arferol sef:

- a) Os daw cais cynllunio i law yna fod hawl i'r Cadeirydd ac aelodau Ward berthnasol ddod i benderfyniad ar y cyfryw.
- b) Fod hawl i'r Cadeirydd ac un aelod arall ag awdurdod i arwyddo sieciau i dalu anfonebau fyddai'n ddyledus cyn cyfarfod mis Medi o'r Cyngor.

33. **AIL GARTREFI**

Derbyniwyd cais gan Owain Watkin Hughes am gymorth i gasglu data ar sut mae ail gartrefi yn effeithio ar gymunedau gwledig lleol. 'Roedd y gwaith yma yn rhan o'i waith ymchwil ar gyfer traethawd hir ei radd MA ym Mhrifysgol Lerpwl. Gwnaed copi o'r hollidau i bob aelod a chyfle unai i anfon y wybodaeth yn uniongyrchol at Mr. Hughes neu dod a'r cyfryw i'r Clarc i'w anfon ymlaen iddo.

34. **COMIN BACH, BRYNCROES**

Penderfynwyd gofyn i Mr. J.A. Pozzi dwtio'r coed helyg ochr chwith i'r Ffynnon ond nad oedd i dorri'r coed onnen oedd ar y safle.

